# Bod yn bresennol mewn tanau gwyllt a'u rheoli

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i weithio fel aelod o dîm wrth ymateb i danau gwyllt a delio â nhw. Mae'r safon hon yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol a gweithredu cyfarpar yn ddiogel i reoli tanau gwyllt ac i gadw'ch hun a chadw pobl eraill yn ddiogel yn ystod tanau gwyllt.

Gall tanau gwyllt ledaenu a newid ymddygiad yn gyflym felly bydd angen i chi ddeall y meysydd allweddol sy'n effeithio ar ddatblygiad ac ymddygiad tanau gwyllt. Trwy gydol y safon hon, mae'n bwysig eich bod yn cyfathrebu'n effeithiol er mwyn cynnal diogelwch.

Argymhellir y safon hon i ymladdwyr tân sy'n bresennol mewn tanau gwyllt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 cadarnhau gyda phobl eraill eich tasgau a’ch dyletswyddau yn gysylltiedig â thannau gwyllt yn unol â’ch rôl, eich cyfrifoldebau, eich gallu a’ch profiad

P2 llywio ‘n ddiogel yn ystod tanau gwyllt, yn unol â gwybodaeth sydd ar gael

P3 adnabod ffactorau sy’n achosi newidiadau i ymddygiad tanau gwyllt yn unol â’r System Rhagweld Tanau Gwyllt

P4 rhoi gwybod am unrhyw newidiadau mewn ymddygiad tân gwyllt i bobl eraill wrth y digwyddiad yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu’ch sefydliad

P5 gweithredu’n ddiogel yn ystod tanau gwyllt yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol eich sefydliad

P6 defnyddio dulliau ffrwyno i ddelio â thanau gwyllt yn unol â’ch tasgau a’ch dyletswyddau cytunedig

P7 cynnal cyfathrebiadau effeithiol yn ystod tanau gwyllt yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu eich sefydliad

P8 defnyddio adnoddau, offer a chyfarpar diogelu personol mewn tanau gwyllt yn unol â’u cyfyngiadau, eu cyfarwyddiadau diogelwch a’u cyfarwyddiadau gweithredu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Lechyd a diogelwch**

K1 pwysigrwydd cynnal eich diogelwch a'ch lles chi a diogelwch a lles pobl eraill yn ystod tanau gwyllt

K2 ffactorau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles personél yn ystod ymateb i dân gwyllt

K3 arferion gweithio diogel eich sefydliad wrth ymateb i danau gwyllt

K4 mesurau sydd ar gael ar gyfer cynnal lles yn achos tanau gwyllt, gan gynnwys ardaloedd gorffwys, bwyd, dŵr a chymorth cyntaf

K5 peryglon a risgiau tanau gwyllt sy'n effeithio ar bobl, eiddo a'r amgylchedd K6 sut i ddefnyddio gwybodaeth asesiad risg i wneud penderfyniadau

K7 sut i weithredu a chyfleu penderfyniadau ar sail yr asesiad o risg

K8 mesurau rheoli eich sefydliad i liniaru risgiau

**Sefydliadol**

K9 deddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau, canllawiau a phrotocolau sy'n berthnasol i'ch rôl yn ystod tanau gwyllt

K10 deddfwriaeth, canllawiau a gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n berthnasol i danau gwyllt o fewn maes eich cyfrifoldeb

K11 rolau, cyfrifoldebau a chyfyngiadau eich awdurdod chi, awdurdod pobl eraill ac awdurdod asiantaethau eraill yn gysylltiedig â thanau gwyllt

**Personol a rhyngbersonol**

K12 dulliau a thechnegau ar gyfer cyfathrebu â phobl eraill

K13 llinellau cyfathrebu ac adrodd yn y gweithle

K14 pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ag eraill yn ystod tanau gwyllt

K15 sut i drin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth, gan gyfrif am amrywiaeth a'i dderbyn

**Technegol**

K16 gwybodaeth sydd ar gael i lywio eich dealltwriaeth o danau gwyllt a sut i gael ati

K17 sut i ddefnyddio mapiau, offer neu gyfarwyddiadau i lywio o gwmpas tanau gwyllt

K18 y System Rhagweld Tanau Gwyllt a sut i'w chymhwyso

K19 cyfarpar diogelu personol a chyfarpar gweithredol sy'n cael eu defnyddio mewn tanau gwyllt, gan gynnwys eu galluoedd, eu cyfyngiadau a'r defnydd diogel ohonynt

K20 tactegau ffrwyno a dulliau eich sefydliad ar gyfer rheoli a diffodd tanau gwyllt

K21 protocol diogelwch LACES (Lookouts, Awareness, Communications, Escape Routes, Safety Zones) a sut i'w weithredu'n effeithiol

K22 sut i gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol gan ddefnyddio protocol LACES

## Cwmpas/Ystod

**1 Llywio**

1.1 dilyn cyfarwyddiadau

1.2 dilyn arweinwyr a chydweithwyr

1.3 sgiliau sylfaenol darllen mapiau

1.4 GPS

**2 Ffynonellau a mathau o wybodaeth**

2.1 mapiau

2.2 cynlluniau a strategaethau tân lleol

2.3 polisïau, canllawiau, gweithdrefnau gweithredu safonol ac asesiadau risg yn berthnasol i danau gwyllt

2.4 deallusrwydd dynol

**3. Amgylchedd tanau gwyllt**

3.1 topograffeg

3.2 tanwydd

3.3 tywydd

3.4 ymddygiad tân

**4 Risgiau**

4.1 risgiau iechyd a diogelwch i bobl

4.2 risg eiddo, economaidd a masnachol

4.3 amgylcheddol

**5 Eraill**

5.1 cydweithwyr

5.2 rheolwyr tir

5.3 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

5.4 Y Weinyddiaeth Amddiffyn

5.5 gwasanaethau brys

5.6 cwmnïau cyfleustodau

5.7 y cyfryngau

5.8 aelodau'r cyhoedd

5.9 gwasanaethau trafnidiaeth

5.10 Timau Chwilio ac Achub
5.11 asiantaethau gwirfoddol
5.12 Awdurdodau Lleol a Chenedlaethol
5.13 asiantaethau eraill

**6. Adnoddau**
6.1 adnoddau mewnol
6.2 adnoddau allanol
6.3 personél a’u galluoedd
6.4 cymorth milwrol
6.5 cyfarpar
6.6 darpariaeth dŵr
6.7 grwpiau tanau gwyllt lleol
6.8 meddalwedd ac offer perthnasol fel MDT

## Cysylltiadau â SGC eraill

Disgwylir y bydd yr NOS hwn yn cael ei ddefnyddio a'i gymhwyso ar y cyd ag NOS eraill sy'n berthnasol i'ch rôl ym maes tân ac achub.

## Cysylltiadau Allanol

Mae 'Canllawiau Gweithredol – Tanau Gwyllt' ar gael, ac fe'u datblygwyd er mwyn rhoi dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ychwanegol o danau gwyllt i staff Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddir 'Canllawiau Gweithredol – Tanau Gwyllt' (Saesneg) gan Lywodraeth yr Alban:
http://www.scotland.gov.uk/Topics/Justice/public-safety/fire-and-rescue-services/fire-rescue-advisory-unit/publications/wildfireopsguidancedraft

Bod yn bresennol mewn tanau gwyllt a'u rheoli

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Rhag 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Rhag 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJFRSWF03 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaeth Tân ac Achub - Rheolwr Gorsaf, Rheolwyr Gwylfa Tân ac Achub |
| **Cyfres/Set** | Tân ac Achub - ymdrin ag achosion o Danau Gwyllt, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | Tân; achub; ymateb; digwyddiadau; datblygiad; ymddygiad; diogelwch; cyfathrebu; |